



# Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2014

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Wylfa a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

## TABL CYNWYS

1	INSPECTIONS .....	3
2	ROUTINE MATTERS .....	3
3	NON-ROUTINE MATTERS .....	5
4	REGULATORY ACTIVITY .....	5
5	NEWS FROM ONR .....	5
6	CONTACTS .....	6

## 1 ARCHWILIADAU

### 1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd diogelwch safle'r ONR ar gyfer gorsaf bŵer Wylfa arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

14, 15, 16, 17, 18 Gorffennaf 2014.

11, 12, 13, 14, 15 Awst 2014.

9, 10, 11, 12 Medi 2014.

Yn ystod y cyfnod, cyflawnodd arbenigwr yr ONR neu arolygwyr prosiect hefyd archwiliadau yn ymwneud â diogelwch safle, digwyddiadau sydd wedi digwydd ar y safle ac asesiad o adolygiad diogelwch cyfnodol yr orsaf a gyflwynwyd i'r ONR yn Medi 2013.

Mynychodd arolygydd safle diogelwch niwclear yr ONR gyfarfod o SSG yr orsaf.

## 2 MATERION ARFEROL

### 2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn cynnwys monitro gweithgareddau'r trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan nifer o'r amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded safle niwclear er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau a wnaed a'u gweithriad.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhwysodd arolygiadau rheolaidd o orsaf ynni Wylfa'r meysydd canlynol:

digwyddiadau ar y safle;

hyfforddi staff, cymwysterau a phrofiad;

parodrwydd ar gyfer argyfwng;

addasiadau i beiriannau, offer ac achosion diogelwch;

gallu sefydliadol;

mecanweithiau a dyfeisiau diogelwch;

arolygiad, archwiliad, cynnal a chadw, a phrofi;

rheolau gweithredu a chyfarwyddiadau;

rheoli gweithrediadau yn cynnwys rheoli a goruchwyllo;

rheoli gwastraff ymbelydrol;

diogelu radiologol;

adolygiad cyfnodol o ddiogelwch; a,  
datgomisiynu.

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle yr ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd ar unrhyw waith sy'n weddill yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau er lles diogelwch y caiff mesurau adferol priodol eu cymryd o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

### Adolygiad Cyfnodol o Ddiogelwch

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd dau gyfarfod yn y safle i drafod casgliad asesiad yr ONR o adolygiad cyfnodol o ddiogelwch y trwyddedai i warantu gweithrediad o 1 hydref 2014 i 30 Medi 2024. Mae'r ONR eisoes wedi darparu datganiad dros dro i Magnox Limited, yn datgan er nad yw ei waith asesu wedi ei gwblhau eto a'r casgliadau yn dal heb eu cadarnhau, nid yw wedi nodi unrhyw fater arwyddocaol allai effeithio'n andwyol ar ddiogelwch y gwaith yn ystod y cyfnod a gwmpasir yn yr adolygiad. Fodd bynnag, mae asesiad yr ONR wedi amlygu nifer o feysydd ble mae angen gwaith atodol gan y trwyddedai, ac mae cyfarwyddwr yr orsaf wedi cysylltu â'r ONR i gadarnhau y bydd y materion hyn, ynghyd â darnau eraill o waith i ddod, yn cael sylw ganddynt yn ôl yr amseroedd a gytunwyd ar gyfer cwblhau eu hadolygiad. Penderfyniad yr ONR yw, yn amodol i gwblhau'r rhaglen waith a gytunwyd, gallai gweithrediad yr orsaf barhau tan 30 Medi 2024 pan fydd y cyfnod PSR presennol yn dod i ben, ac fe gyfathrebwyd hyn i'r trwyddedai mewn llythyr ar 30 Medi 2014. Bydd yr ONR yn monitro cynnydd gan y trwyddedai i gwblhau'r gwaith sy'n weddill, yn rhan o'i reoleiddiad rheolaidd o'r safle.

## **2.2 Archwiliadau System Ddiogelwch**

Mae'r ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ychwanegol at archwiliadau cydymffurfio yn seiliedig ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear. Mae'r safle niwclear yn gofyn i'r holl safleoedd trwyddedig gael achos diogelwch parthed unrhyw weithrediadau a allai effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer yr adweithydd Magnox sy'n parhau'n weithredol yng ngorsaf bŵer Wylfa, nodwyd 30 o systemau i fod yn sail i archwilio systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r hawliadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw archwilio diogelwch y systemau diogelwch perthnasol a nodir ar y safle yn systematig dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ONR o'r farn y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel ofynnol o sicrwydd y bodlonir gofynion yr achos diogelwch a bod y safle yn cael ei weithredu'n ddiogel. Yn ystod y chwarter hwn, y systemau diogelwch a archwiliwyd oedd y System Monitro Pelydrau Gama Argyfwng a'r system Llwybr Cell Storio Sych/Gollyngiad Amrywiol Eilaidd. Ar sail yr archwiliadau a gyflawnwyd, pennwyd bod y systemau yn cael eu gweithredu a chynnal yn unol â gofynion yr achos diogelwch. Ble nodwyd meysydd i'w gwella, addawodd yr orsaf y byddai'n cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain. Bydd yr ONR yn monitro cynnydd i gwblhau unrhyw waith a gytunwyd.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach arolygiadau system yr ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa a safleoedd trwyddedig niwclear eraill yn: [www.hse.gov.uk/nuclear/intervention-reports/index.htm](http://www.hse.gov.uk/nuclear/intervention-reports/index.htm).

## **2.3 Gwaith arall**

### Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Cynllunio at Argyfwng (EPCC)

Mynychodd arolygydd diogelwch enwebedig penodedig yr ONR gyfarfod EPCC gorsaf bŵer Wylfa yn ystod y cyfnod. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i randdeiliaid Wylfa gyfarfod ac i drafod

materion yn ymwneud â'r orsaf, ac i ofyn am ymateb gan yr ONR ynghlŷn â rheoleiddio'r safle, fel bo'n briodol.

### **3 MATERION ANARFEROL**

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Adroddir ar faterion penodol i'w nodi yn ystod y cyfnod isod:

#### Gwaith ar Do Adeilad yr Adweithydd

Roedd yr ONR wedi adrodd yn flaenorol i'r SSG bod yr orsaf wedi pennu bod amodau ar do adeilad yr adweithydd ar gyfer cyfnodau rhwng diffodd cyfnodol adweithydd yn galw am gael rheoliadau diogelu ymbelydredd ar waith i gyfyngu ar yr amlygiad posibl i weithwyr yn y lleoliad hwnnw. Fodd bynnag, cadarnhaodd eu hadolygiad o waith ar y to nad oedd y mesurau diogelwch gofynnol yn weithredol yn gychwynnol. Wedi sylweddoli'r amgylchiadau, fe ataliodd yr orsaf waith ar y to ac adfer cydymffurfriad gyda'r trefniadau sefydledig i ddiogelu gweithwyr dan y rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999 (IRR99). Mae'r ONR nawr wedi ystyried amgylchiadau'r achos hwn, ynghyd â'r camau unioni a gymerwyd ar y pryd, gan gasglu bod llythyr gorfodi i gofnodi'r diffyg mewn cydymffurfriad, er gwybodaeth yn y dyfodol os bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd yn ymateb cymesur ar yr achlysur hwn. Bydd yr ONR yn dal i fonitro cydymffurfriad â IRR99, yn rhan o'i reoleiddiad rheolaidd o'r safle.

#### Lleoliad Cyfarpar Argyfwng yr Orsaf

Gwelodd yr ONR arddangosiad o weithrediad a lleoliad cyfarpar o'i safle cyfarpar tu hwnt i sail dylunio (BDB), yn ystod ymarfer hyfforddiant trefniadau argyfwng yng ngorsaf bŵer Wylfa. Cadarnhaodd yr ymarfer y pennir bod gweithrediad a lleoliad cyfarpar o'r Safle BDB yn ddigonol ar sail y gweithgareddau a samplwyd yn ystod yr arddangosiad. Yn dilyn yr ymarfer, mae Wylfa wedi cytuno i gwblhau gwaith i wella cyfarpar cyfathrebu, ac i hysbysu'r ONR pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau. Bydd yr ONR yn monitro darpariaeth yr offer gwell yn rhan o'i ryngweithio rheoleiddio rheolaidd yn y safle.

#### Newid Arolygwr Diogelwch Safle Enwebedig yr ONR

O 1 Hydref 2014, bydd yr arolygydd diogelwch safle enwebedig (NSSI) yn newid. Mae'r NSSI newydd yn bwriadu mynychu'r cyfarfod SSG nesaf sydd wedi ei aildrefnu ar gyfer Tachwedd 2014, a bydd yn cyflwyno ei hun i'r grŵp yn ystod y cyfarfod. Hoffai'r NSSI blaenorol ddiogelwch i aelodau SSG Wylfa am eu cydweithrediad yn ystod ei gyfnod yng ngorsaf bŵer Wylfa.

### **4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO**

Gall arolygwyr safle ONR, arolygwyr arbenigol ac arolygwyr HSE gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Ni chyhoeddwyd unrhyw LIs ac/neu Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod:

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan yr ONR ar: <http://www.onr.org.uk/pars/>.

### **5 NEWYDDION GAN YR ONR**

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan (<http://www.onr.org.uk/index.htm>), a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

#### Strategaeth yr ONR 2015-2020

Mae'r ONR yn dal i chwilio am adborth ar ei strategaeth newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n darparu gweledigaeth a chyfeiriad i'r ONR a rheoleiddio niwclear yn y pum mlynedd nesaf.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 14 Gorffennaf i 6 Hydref ar wefan yr ONR. Mae gan yr ONR rwymedigaeth statudol i sefydlu strategaeth newydd erbyn 1 Rhagfyr.

Gallwch lawrlwytho'r strategaeth trwy dudalen ymgynghoriadau cyhoeddus gwefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/consultations/index.htm>).

## **6 CYSYLLTIADAU**

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Redgrave Court

Merton Road

Bootle

Glannau Mersi

L20 7HS

gwefan: <http://www.onr.org.uk>

e-bost: [ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk](mailto:ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i: <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2014

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i

<http://www.hse.gov.uk/copyright> <http://www.onr.org.uk/copyright> am fanylion.

Cyhoeddwyd 04/14

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.*